# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Penysarn

Dyddiad yr arolygiad: 16/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd fel cwrteisi, parch a thegwch i bob plentyn, yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad synhwyrol, ac yn ystyried cyfraniad pawb er mwyn darparu addysg gyflawn i'r disgyblion. Mae staff yn ymrwymedig i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd dysgu cartrefol a chefnogol.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn fwriadus sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad llafar disgyblion o oedran cynnar. Er hyn, mae disgyblion yn dueddol o droi at y Saesneg i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod sesiynau dysgu.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu a chwarae ysgogol sy'n cefnogi datblygiad lles ac addysgol disgyblion yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir. Er hyn, mae cyfleoedd bwriadus i gefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn gyfyngedig. Mae medrau mathemateg a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chymdeithasol yn fedrus, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu lles emosiynol. Maent yn cyfrannu syniadau ac adeiladu ar waith ei gilydd yn hyderus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio i ddatrys heriau dysgu drwy themâu addas.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Mae athrawon yn defnyddio tystiolaeth o ddysgu'r disgyblion i fonitro cynnydd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i rannu'r arferion mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol, er enghraifft gyda dulliau cyflwyno adborth a chynllunio.

Mae arweinwyr yn dechrau casglu barn disgyblion a rhieni i helpu i wella, ac mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau hunanwerthuso wedi'u datblygu'n llawn.

Mae rhieni'n falch fod eu plant yn mynychu ysgol ofalgar sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

A2 Datblygu gweithdrefnau hunanwerthuso ymhellach i gynnwys rhannu arfer dda ar draws yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026